



papur



priordy

Â'I GAFAEL YNOF ER NAS GWELAF HI



*Llinell olaf pob pennill yn yr emyn a ddewiswyd gan Henry Wilkins. Llanerch.
yw'r uchod. Gweler y rheswm dros ei ddewis y tu mewn*

Rhifyn 302

PAPUR GORFFENNAF / AWST 2017

GAIR GAN EIN GWEINIDOG

YSGWYDD YN YSGWYDD

Wrth gerdded drwy dref Rhydaman adeg Cyfarfodydd Blynyddol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ychydig wythnosau yn ôl dyma sylwi ar sticer yn sownd i bostyn yn y dref yn datgan yn glir bod Rhydaman, fel y Sir yn estyn 'Croeso i Ffoaduriaid'.

Cyflwynwyd cynnig o flaen cynhaledd yr Undeb wythnos yn annog y cynadleddwyr i ddatgan bleidlais mai polisi'r Annibynwyr, mewn gair a gweithred, yw dangos trugaredd a chariad at ffoaduriaid bob cyfle a gawn. Derbyniwyd y cynnig yn unfrydol.



yr un
drwy

Mae datgan, naill ai drwy bleidlais neu drwy osod sticer ar bostyn o blaid agor ein drysau i'r sawl sydd angen help - *boed hynny yn ffoaduriaid sy'n croesi ffiniau daearyddol i geisio lloches, neu yn bobl ar ein stepen drws ni'n hunain sy'n croesi ffin pryder ac anobaith ac yn chwilio am gyfle i weld ystyr newydd i fywyd* - yn golygu ein bod yn sefyll ysgwydd yn ysgwydd â nhw yn eu gofid, ac yn barod i wneud popeth o fewn ein gallu i'w helpu i godi i fyny, ac i gamu ymlaen, ac i wneud eu presennol yn fwy cyfforddus, a'i dyfodol yn fwy apelgar.

Wedi'r cwbl, fe all sefyllfa bresennol unrhyw un ohonom newid ar amrantiad. Prin bod trigolion Tŵr Grenfell wedi dychmygu am eiliad wrth glwydo y byddai eu bywydau wedi newid yn llwyr o fewn ychydig oriau. Eto, gwelwyd y gymuned yn ymateb mewn ffyrdd ymarferol i'w hangen a'i gofid, drwy sefyll ysgwydd yn ysgwydd â nhw.



ifanc
newidiwyd bywyd ei theulu am farbaraid. Roedd y digwyddiad bod yn sefyll ysgwydd yn â'r sawl sydd mewn angen.

Cynhaliwyd digwyddiad ym Mharc Caerfyrddin yn ystod mis Mehefin a ddenodd nifer fawr o bobl, a hynny



flwyddyn wedi llofruddiaeth y gwleidydd dawnus, Jo Cox, y byth drwy un weithred yn y parc yn arwydd ein ysgwydd â'n gilydd, ac

Pleidlais neu sticer, bag o ddillad neu bocs o fwyd, gair ar lafar neu weddi dawel - beth wnewch chi i ddangos eich bod yn sefyll ysgwydd yn ysgwydd â phobl yn eu hangen?

Gweddi

Gweddiwn dros bawb sy'n ffoi neu'n cael eu herlid.

Arglwydd daioni, haelioni a chariad, diolchwn i ti am agor calonnau cynifer o bobl i'r rhai sy'n ffoi am eu bywyd.



Cynorthwya ni yn awr i agor ein breichiau ninnau i gynnal ffoaduriaid sy'n mentro popeth.

Goleua a nertha ni i ddefnyddio'r cyfryngau sydd ar gael i estyn cymorth er mwyn i'r rhai sy'n anobeithio darganfod gobaith newydd ac er mwyn cyfannu ac adfer bywydau sydd wedi cael eu dryllio.

Gofynnwn hyn yn enw Iesu Grist, dy Fab, a fu ei hun yn ffoadur.

Amen

Gweddi o wefan Eglwys Minny Street, Caerdydd

YR HAF

Byddwn fel teulu'n cymryd gwyliau yn ôl ein harfer ym mis Awst. Os oes argyfwng yn codi yn ein habsenoldeb, gofynnaf yn garedig i chi gysylltu â mi drwy ysgrifenyddion yr eglwysi:

Alun Charles (Y Priordy) 01267 236037 / 07813 716062 (symudol)
Marlene Jones (Cana) 01267 237592 / 07528 454834 (symudol) a
Joanne Richards (Bancyfelin) 01267 211520 / 07412 25492 (symudol)

Bydd yr Ysgrifenyddion yn cysylltu â mi ar eich rhan. (Mae hyn hefyd yn wir am fy nhaith i Dde Affrica eleni). Gwerthfawrogaf pe na fydddech yn cysylltu ar fy ffôn symudol yn ystod mis Awst os gwelwch yn dda.

Diolch am eich cydweithrediad a phob hwyl a bendith i bawb dros yr haf.

TAITH DE AFFRICA

CYMDEITHAS ANNIBYNWYR Y BYD



Mynegiant byd-eang o'r meddylfryd Annibynnol yw Cymdeithas Annibynwyr y Byd – rhwydwaith anffurfiol o Annibynwyr ar draws y byd. Mae'n cynnig dolenni cyfeillgarwch rhwng Annibynwyr ar bob cyfandir.

Mae'n cynnal cynhadledd bob pedair blynedd sy'n galluogi Annibynwyr i ddod ynghyd. Mae'n gwneud trafodaeth a rhannu syniadau yn bosibl, tra ar yr un pryd yn hybu ystyriaeth o amrywiol agweddau diwinyddol a sefydlu

Cynhelir Cynhadledd 2017 ym Mhrifysgol Stellenbosch, De Affrica, a hynny ar 6-11 Gorffennaf, 2017. Mae rhaglen y Gynhadledd yn cynnwys amrywiaeth o weithgareddau, ac mae'r cwbl wedi ei drefnu i apelio at bobl o bob oed.

Braint fawr i fi a Sara yw cael mynychu'r gynhadledd yn Ne Affrica yn ystod Gorffennaf eleni. Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i eglwysi'r Ofalaeth am fy rhyddhau am gyfnod. Golyga hyn y byddaf i ffwrdd o'm gwaith o **5 tan 15 Gorffennaf**.. Rwy'n siŵr y bydd y profiad o fod yno'n un bendithiol ac adeiladol a dof oddi yno gyda newyddion a syniadau a fydd yn cyfoethogi fy ngweinidogaeth yn eich plith.

Beti-Wyn

Dymunwn ninnau'n dda i Beti-Wyn a Sara ar y daith ac edrychwn ymlaen at glywed ganddynt ar ôl iddynt ddychwelyd

GŴYL MAWL MEDI

CAPEL EBENESER, ABERGWILI – DYDD SUL 24 MEDI 2017

Noder newid yn y lleoliad oherwydd bod gwaith cynnal a chadw'n digwydd yn y Tabernacl

Y Bore am 10 Oedfa o Fawl i'r Plant a'r Oedolion dan arweiniad Catrin Hughes	Y Prynhawn am 2 Oedfa Bregethu gyda'r Parchedig Owain Llyr Evans
---	---

YMARFERION

Plant Bore Sul 17 Medi Y Priordy – 11 y bore Arweinydd Nicki Roderick	Oedolion Nos Sul 10 / 17 Medi Ebeneser, Abergwili – 7 yr hwyr Arweinydd Helen Gibbon
--	---

EMYNAU

Oedolion

Rhif y Tonau (CFF = Caneuon Ffydd)

15 Gwilym 18 Woodlands (363 CFF) 19 Eirinwg (172 CFF)

20 Eleazer (588 CFF) 22 Cefn-bedd Llewelyn (189 CFF)

23 Melcombe (254 CFF) 24 Weimar (685 CFF)


Adran y Plant

2 Fy Fflam Fach i 6 Agor ein llygaid 7 Mi benderfynais

9 Pwy yw brenin y jyngl? 10 Cofiaf amdanat ti

11 Y seren fach

BLYCHAU YN Y CYNTEDD



**COFIWCH AM Y BLWCH STAMPIAU A'R
BLWCH CETRYS A'R BLWCH POTELI PLASTIG
YN Y CYNTEDD**

AR Y WE: www.priordy.org (yn cynnwys Papur Priordy)

Helen Gibbon...

CYMANFA FAWR PANTYCELYN

NOSON grasboeth o haf a gwledd o ganu mawl dan arweiniad ysbrydoledig

Mr John S Davies. Dyna gafwyd yn y Priordy nos Sul 18 Mehefin. Roedd hir ddisgwyl wedi bod am y noson hon gan mai Cymanfa i ddathlu trichanmlwyddiant geni William Williams



Pantycelyn ydoedd mewn blwyddyn pan gynhelir digwyddiadau lu i ddathlu'r achlysur. Buaswn yn meddwl mai'r gorchwyl fwyaf wrth drefnu Cymanfa fel hon fyddai ystyried pa emynau i'w cynnwys gan fod dros 85 ohonynt o'i eiddo yn y *Caneuon Ffydd* yn unig. Nis siomwyd oherwydd cawsom ddeitholiad ardderchog o un ar ddeg emyn ar

donau cyfarwydd. Yn ychwanegol at hyn cafwyd datganiad hyfryd gan **Elin Llwyd** o ddau emyn Williams ar donau mwy cyfoes sef *Pererin Wyf* ar y dôn *Amazing Grace* ac



O Nefol Addfwyn Oen gan Sioned Williams. Mae rhain eisoes o fewn cloriau *Caneuon Ffydd* ac wedi hen ennill eu plwyf yn ein gwasanaethau ond tŷ newydd a fydd yn sicr o ennill ei lle yw gosodiad *Robat Arwyn* o'r geiriau *O Llefara Addfwyn Iesu* ar ffurf deuawd ac fe ganwyd hon yn hyfryd gan **Mared Owen a Sara Llwyd.** Gweddai'r datganiadau hyn yn berffaith i'r noson.

Er ei bod hi'n well gan John S gael rihysal cyn Cymanfa, yn enwedig gan fod y cwbl yn cael eu recordio ar gyfer

Caniadaeth y Cysegr, roedd yn llawn canmoliaeth o'r dechrau am y canu pedwar llais a'r brawddeg ystyrion.

Roedd hi'n briodol ar noson fel hon hefyd i gael ein hatgoffa am hanes "*Tad yr Emyrn Cynulleidfaol Cymraeg*" fel y disgrifiwyd Williams gan y ddiweddar Kathryn Jenkins. Dyna gawsom gan y Parchedig Beti-Wyn ar y dechrau sef braslun o hanes ei fywyd a sôn am ei gampweithiau fel llenor a bardd. Rhoddwyd y croeso arferol i bawb a oedd yn bresennol ynghyd â rhai gwesteion oedd yn cynnwys un o deulu Pantycelyn sef Mrs Lyn Thomas. Yn anffodus doedd Mr a Mrs Cecil Williams Pantycelyn a Mr Vaughan Roderick a'i chwaer ddim yn medru bod yno.



Brithwyd y cyfan gan yr arweinydd gydag ambell i stori ddiddorol neu esboniad o'r emyn a'r dôn. Tra'n cydnabod mai geiriau emyn sydd bob amser yn bwysig, rhaid cael tôn i'w dyrchafu ac fe soniwyd fwy nag unwaith am y briodas wych rhwng emyn â thôn. Gellir gosod *Tŷ Ddewi* yn esiampl o hyn i'r geiriau "*Mi dafla' maich oddi ar fy ngwar*" a hefyd "*Y Faenol*" i'r geiriau "*Ennyniaist ynof dân*."

Diolchwyd i Peter a Meinir Hughes Griffiths am drefnu'r noson a hefyd i Meinir Lloyd a Heather Williams am rannu'r gwaith cyfeilio, i Gwynfor Davies am y gwaith argraffu ac i bawb a gymerodd ran. Rwyn siŵr hefyd fod y gynulleidfa'n falch iawn o'r dŵr a ddarparwyd ac a ddosbarthwyd gan y swyddogion ar noson oedd y tu hwnt o gynnes ac a oedd yn ein hatgoffa o'r hafau a'r Cymanfaedd a fu.

Apêl John S wrth derfynu oedd i ni barhau i ganu mewn cynganedd yn ein gwasanaethau cyhyd â medrwn. Dyfynnodd y cyfansoddwr GF Handel a ddywedodd, "*In Wales they sing in many parts*" a hyn yn ôl yn yr ail ganrif ar bymtheg. Dywedodd George Borrow rywbeth yn debyg os gofia i'n iawn. Byddai'n sobor o drist pe byddem yn colli'r ddawn i ganu mewn pedwar llais.

Yr emyn olaf i ni ei ganu oedd yr emyn a ystyrir yn un o gerddi mwyaf yr iaith Gymraeg "*Mi dafla' maich oddi ar fy ngwar*" sef "*Telyneg pur*" yn ôl Syr John Morris Jones ar y dôn *Tŷ Ddewi*. Wedi i ni ddyblu a

threblu'r byrdwn ac yna ymuno yn y parabl y tu allan, gellir ond meddwl am y trysor a adawyd i ni gan yr athrylith hwn, yr emyn-donau sydd yn gyfrwng i'w dyrchafu ac yn fwy na heb, brofiad personol y "Per Ganiedydd" a thestun ein moliant sy'n rhoi gobaith i ni mewn byd mor ansicr.



"Ffarwel, ffarwel bob eilun mwy mae cariad Iesu'n drech na hwy."

Diolch yn fawr iawn unwaith eto i Helen Gibbon, Capel Dewi, am fod mor barod i'n helpu drwy lunio'r adroddiad hwn

GOFALAETH Y PRIORDY, CANA A BANCYFELIN YNGHYD Â FFRINDIAU YNG NGHAPEL HEOL AWST AC ELIM

Pererindod i

Soar y Mynydd

**Dydd Sul 23 Gorffennaf
2017**



Amserlen y dydd

Bws yn gadael y manau canlynol yn brydlon

Sgwâr Bancyfelin

10.10yb

Cana:

10:20yb

Heol Awst (Capel)

10:30yb

Heol Y Prior (BBC)

10.40yb



Picnic yn Llyn Brianne: 12-15yp - 1.15yp
pawb i ddod â phecyn bwyd)

Oedfa yn Soar y Mynydd am 2
dan arweiniad Beti-Wyn:

Swper. Y White Heart, Llandeilo: 5yp ar gyfer 5.30yp

Adref tua 7.30yh



Pris y dydd (yn cynnwys bws a bwyd) £20.

**Enwau ar y daflen yn y cyntedd cyn gynted â phosib,
os gwelwch yn dda.**



DIGWYDDIAD I GOFIO JO COX

Ar 16 Mehefin 2016, cafodd yr Aelod Seneddol **Jo Cox** ei llofruddio oherwydd ei hagwedd at fewnfudo.

Yn ei haraith agoriadol yn y Senedd dywedodd Jo fod gennym ni "*fwy sydd yn ein huno na sydd yn ein gwahanu.*"



Unodd Uned
Sgowntiaid

Myrddin ag elusen *Hope not Hate*
Caerfyrddin i drefnu digwyddiad ym Mharc
Myrddin ar 17 Mehefin 2017. Bwriad y
digwyddiad oedd cofio Jo Cox a'il delfryd

drwy roi cyfle i bobl Caerfyrddin ddod at ei gilydd,, boed yn Gristion, Iddew neu Fwslim, yn ddu neu'n wyn, hen neu'n ifanc, yn hoyw neu beidio, abl neu'n anabl, Cymro, Sais, Somali neu'n Bacistani a mwynhau cwmni'n gilydd, cerddoriaeth a phaned o de.

Person sy'n awyddus iawn i ddangos fod pobl Caerfyrddin yn rhai goddefgar a chroesawgar yw Mareed Owen, un o'n pobl ifainc ni yn y Priordy. Bu ym Mharc Myrddin a gofynnodd *Papur Priordy* rai cwestiynau iddi am y digwyddiad:

PP: Mareed, elli di ddweud wrthon ni sut fath o ddiwrnod gawsoch chi yn y Parc?

MO: Bwriad y diwrnod oedd dod â'r gymuned ynghyd ac fe gyrhaeddwyd y nod yn sicr. Agorodd y Maer newydd y digwyddiad ac fe ganodd criw o Ysgol Bro Myrddin yr emyn '*O Aros Gyda Mi*' yn ystod yr agoriad hwn. Drwy gydol y dydd wedyn roedd cerddoriaeth fyw gan Ysgol Bro Myrddin, Côr Tonic, y grŵp Adwaith a Band Chwyth Arian Rhydaman. Roedd gweithgareddau di-ri yno, o brosiectau celf i baentio wynebâu i 'sledges' gwair, a'r cwbl oll am ddim, Dwi'n credu fod pawb wedi mwynhau'r diwrnod yn fawr, gan gynnwys y rhai fu'n brysur yn trefnu'r diwrnod.



PP: Oedd tipyn o bobl wedi dod?

MO: *Gan ei bod hi'n ddiwrnod mor braf, fe gawsom ni ein synnu gan nifer y bobl a ddaeth i'r parc. Roedd hi'n braf iawn gweld hyn gan fod y gymuned wir wedi ymateb i'r alwad 'Dewch ynghyd!'*

PP: Beth oedd uchafbwynt y diwrnod i ti?

MO: *Roedd yr agoriad yn un o fy uchafbwyntiau i'n bersonol, efallai oherwydd fy mod i'n un o'r criw a oedd yn canu! Ar ôl canu dau bennill, fe ymunodd y gynulleidfa ac roedd naws arbennig iawn yn y parc y pryd hwnnw. Uchafbwynt arall oedd y prosiect celf cymunedol, sef cadwyn o golomennod wedi eu haddurno gan bobl Caerfyrddin, gyda'u gobeithion ar gyfer dyfodol y gymuned arnyn nhw. Bues i'n helpu yn y stondin drwy'r prynhawn, ac erbyn hyn dwi'n amau fod gan unrhyw fath o gelf, boed yn gerddoriaeth neu'n arlunio, y pŵer i ddod â phobl ynghyd.*

PP: Pa mor bwysig yw cynnal diwrnod fel hyn i ti?

MO: *Dwi'n hynod o falch ein bod ni wedi penderfynu cymryd rhan yn y diwgyddiad, yn enwedig gan fod pob math o ddiwgyddiadau yn cymryd lle ar draws Prydain ar yr un pryd. Roedd y diwrnod er cof am Jo Cox, ond yn fwy na hyn, roedd y diwrnod yn atgoffa pobl pam y llofruddiwyd Jo Cox yn y lle cyntaf. Drwy gael hwyl a dod at ein gilydd ar ddiwrnod fel hyn, er ei fod braidd yn cliché, dwi'n gobeithio fod ein cymuned yn fwy parod i fod yn groesawgar a goddefgar nag o'r blaen.*

**Llawer iawn o ddiolch i ti,
Mared a da deall i chi gael
diwrnod da.**



DIOLCH YN FAWR

Cydnabyddir yn ddiolchgar gyfraniad

JANET A GWYNFOR DAVIES

Brynderwen

at gyhoeddi'r Papur y mis hwn

BANC BWYD CAERFYRDDIN



Annwyl Gyfeillion y Banc Bwyd

Ar ran Banc Bwyd Caerfyrddin hoffwn ddiolch yn fawr iawn i bawb yng Nghapel y Priordy am gyflwyno rhoddion bwyd i'r Banc Bwyd ym mis Mai. Buoch hefyd mor garedig â chyflwyno £5 i'n cronfa.

Dim ond drwy gymorth pobl fel chi rydym yn gallu cynorthwyo pobl sy'n dod atom.

Fel y gwyddoch, mae'r bobl sy'n derbyn cymorth gan y Banc Bwyd i gyd wedi'u hasesu a'u cyfeirio gan asiantaethau proffesiynol sy'n gweithio yn y gymuned. Nid oes angen i'r rhan fwyaf o bobl sy'n derbyn cymorth gan y Banc Bwyd ymweld â ni fwy na dwywaith y flwyddyn. Cymorth yn y tymor byr rydym yn ei roi fel arfer a digon i bobl oroesi argyfwng annisgwyl.

Yn ystod misoedd Ebrill a Mai cyflwynodd y banc bwyd 441 o gyflenwadau brys tri niwrnod i bobl leol i'w help drwy argyfwng. Aeth 166 o'r rhain i blant.

Diolch i chi unwaith eto am eich cefnogaeth. Gobeithio y byddwch yn parhau i'n cefnogi yn y dyfodol.

Yn gywir

Judy Pawluk

Rheolwr

Swyddfa Banc Bwyd Caerfyrddin

Canolfan Weinyddol Eglwys Gymunedol Tywi

Tre Iwan,

Caerfyrddin, SA31 3BP



GŴYL HIRDDYDD HAF

CARIAD oedd thema Cwrdd Awyr Agored Eglwysi Dosbarth Caerfyrddin y Presbyteriaid ar Brynhawn Sul, 25 Mehefin 2017 ym Mharc y Dref.



Dangosodd Y Parchedig Beti-Wyn James, Cadeirydd y Dosbarth, sut mae Cariad Duw fel maged. Nid yn unig mae Ei Gariad yn ein tynnu ni ato ond hefyd yn cyffwrdd â phobl eraill drwom ni. Mwynhaodd y plant yr arbrawf gyda maged a hoelion a sgriwiau i esbonio hyn.



Cymerwyd rhan yn yr oedfa gan aelodau o gapeli Moreia, Llansteffan, Tŷ Hen, Y

Babell, Cwmbach, Triniti Sanclêr a Chwmdwyfran. A chawsom ein cyflwyno'n hyfryd i Ffrwythau'r Ysbryd, yn cynnwys Cariad, sef un o'r pwysicaf, gan Blant Ysgolion Sul Bancyfelin a Tŷ Hen. Roedd Helen Gibbon yn cyfeilio i'r emynau.

Yn sicr, gwiredwyd ple'r weddi am i lawenydd dreiddio drwy'r oedfa arbennig hon. A braf yw nodi bod maint y gynulleidfa'n cynyddu o flwyddyn i flwyddyn ac am y tro cyntaf eleni cafwyd tywydd sych! Mae hefyd yn achlysur trawsenwadol gyda chyfeillion o wahanol gapeli'r ardal yn mwynhau ymuno â'r oedfa.

DIOLCHWYD yn gynnes iawn i Huw Thomas, Rheolwr Parc y Dref, a'i staff am y croeso a'r trefniadau rhagorol ar ein cyfer.

**DATHLU HANNER CAN MLYNEDD
YN Y WEINIDOGAETH
Y PARCHEDIG W J EDWARDS**

(Cyn-weinidog Gofalaeth y Priordy, Cana a Bancyfelin)

**Cynhelir oedfa arbennig i ddathlu'r achlysur nodedig
uchod yn yr Hen Gapel, Llanuwchllyn ar
Brynhawn Sul 10 Medi 2017 am 3 o'r gloch.**

Y bwriad yw trefnu bws i Lanuwchllyn, yn gadael Bancyfelin
am **11.30** a Heol y Prior am **11.45**, gyda phawb i ddod â
brechdanau.

.Bydd saib ar y ffordd yno ar gyfer defnyddio'r cyfleusterau a
hefyd wrth ddychwelyd yn Aberaeron am baned a sgloodion
(ond nid yw'n fwriad trefnu bwyd ymlaen llaw).

Bydd yr Ofalaeth yn cwrdd â chostau'r bws

***Enwau ar y daflen ar yr hysbysfwrdd yn y cyntedd mor
fuan â phosibl os gwelwch yn dda, ac yn bendant erbyn
Sul cyntaf Medi***

SUL SBESIAL 2017

9 Gorffennaf 2017 – 10.30

Neuadd Pontyberem

Oedfa Deuluol i holl Gristnogion

Cymraeg Sir Gâr

BYW'R BEIBL

Dr Owain Edwards a'i griw o Goleg y

Bala

Pobl Ifainc Capel Newydd Llandeilo

Paned a Phice bach i ddiyn – a Stondiau

Mynediad am ddim Casgliad at Cymorth Cristnogol

**Os ydych yn teithio mewn car, bydd bws wennol i'ch cludo o'r Maes
Parcio ger y Parc**

DEWCH I DDATHLU EIN FFYDD!

Trefnir gan Annibynwyr, Bedyddwyr a Phresbyteriaid Sir Gâr



**APÊL PIBAU'R PRIORDY
(CRONFA ORGAN Y CAPEL)**



Mae gwahoddiad i bawb noddi un o bibau'r oragan.

Awgrymir isafswm o £10.

Mae darlun mawr o bibau'r organ ym mlaen y capel. Mae cyfle i aelodau aelodau ddewis unrhyw biben, gosod eu henwau ar y biben a manylion eu nawdd mewn amlen yn y blwch gerllaw gyda'u henwau ar yr amlen.

Bydd y blwch yn cael ei wacáu'n wythnosol.

Bydd yr apêl yn agored rhwng misoedd

Gorffennaf a Medi 2017.

Diolch yn fawr iawn i Tim Hayes am drefu'r Apêl

BORE COFFI McMILLAN

Yn rhan o Fore Coffi Mwya'r Byd

Dydd Gwener 30 Medi 2017

Festri'r Priordy 9.30 tan 12.00

Mynediad am ddim

Stondinau Cynnyrch Cartref a Raffl

Am ragor o wybodaeth, neu i gynnig eich help ac unrhyw gyfraniad at y raffl neu'r stondin cacennau cysylltwch ag Alison Parsons ☎01267 238147 neu ☎07860781148 neu alison683@btinternet.com.



**CASGLIAD CYMORTH CRISTNOGOL
O DŶ I DŶ - 2017**

Casglwyd £570 gan ein haelodau eleni.
Diolch i bawb a fu'n cynorthwyo ac i Adrian Evans, ein Trysorydd, am gadw'r cyfrifon.

A WYDDOCH CHI?

FAINT O EGLWYSI, AELODAU, PLANT A PHOBL IFAINC SY GENNYM?

RHIF	CYFUNDEB	EGLWYSI	AELODAU	PLANT A PHOBL IFAINC
1	Llyn ac Eifionydd	22	849	126
2	Gogledd Arfon	24	1286	245
3	Dwyrain Dinbych a Fflint	9	215	38
4	Gorllewin Dinbych a Fflint	8	211	45
5	Maldwyn	24	613	94
6	Meirion	29	1143	153
7	Môn	26	686	77
8	Ceredigion	52	3233	304
9	Gorllewin Caerfyrddin	37	2623	404
10	Dwyrain Caerfyrddin a Brycheiniog	48	3379	397
11	Gogledd Morgannwg	11	124	12
12	Dwyrain Morgannwg	21	1506	426
13	Gorllewin Morgannwg	49	2304	144
14	Penfro	32	1424	80
15	Llundain	5	147	2
	CYFANSWM	397	19,743	2,547

Ffynhonnell

Undeb yr Annibynwyr Cymraeg

*Tanysgrifiadau a Chyfrifon 2016
Tŷ John Penri, Abertawe*

MABOLGAMPAU MIC

Oed Meithrin hyd at B6



GAIR O DDIOLCH



Annwyl Beti-Wyn

Diolch yn fawr iawn am yr holl roddion bendigedig a dderbyniwyd gennych,

Fe osodon ni luniau o'ch holl anrhegion ar ein Tudalen Weplyfr er mwyn codi ymwybyddiaeth ac i ddweud diolch.

Mae defnyddwyr a staff y gwasanaeth ffoaduriaid wrth eu bodd gyda phopeth. Mae'n hyfryd gallu rhoi pinau lliwio a llyfrau i ferched a phlant pan maent yn cyrraedd ac mae'r cyflenwadau argyfwng yn amhrisiadwy. Mae pob rhodd, beth bynnag yw ei maint, yn gwneud gwahaniaeth ond roedd nifer yr eitemau a gyflwynwyd gennych wedi'n rhyfeddu.

Rhowch ein diolch i'ch aelodau, os gwelwch yn dda, am gymryd yr amser i gael pethau ac am ddewis ein helusen.

Cofiwch fwrw golwg ar ein Tudalen Weplyfr:
www.facebook.com/carmarthendomesticabussservices

Llawer o ddiolch

Anne-Marie Maelin

*Gwasanaethau Cam-drin
Domestig Caerfyrddin*



CROESO MAWR

Rydyn ni'n
croesawu'r
teulu o
ffoaduriaid o
Syria sydd
wedi



ymgartrefu yn ein Tŷ Capel yn fawr iawn ac yn dymuno'r gorau
iddynt.

Ffrwyth cynllun yw hwn sy'n cael ei weithredu mewn
partneriaeth â Chyngor Sir Gâr ac mae Peter Hughes Griffiths
yn gyswllt rhyngom a'r cyngor

Bydd Grŵp Bugeilio Teulu'r Tŷ Capel' (Llinos Jones, Dr Llinos
Roberts, Catrin Heledd, Heledd a Gethin Thomas a'n
Gweinidog) yn gwneud pob ymdrech ar ein rhan i sicrhau y
bydd y teulu'n hapus a dedwydd yn eu cartref a'u cynefin
newydd.

CYRSIAU MIC MENTER IEUENCTID CRISTNOGOL – HAF 2017

Cwrs Ieuenctid	31 Gorffennaf – 4 Awst	Coleg y Bala
Souled Out	19 -24 Awst	Coleg y Bala

MIC (MENTER IEUENCTID CRISTNOGOL) MABOLGAMPAU DAN DO YSGOLION SUL A CHLYBIAU CRISTNOGOL

Rowndiau Terfynol y Sir gan gynnwys B7-
Canolfan Hamdden Caerfyrddin
Nos Fercher 12 Gorffennaf 2017



*Dewch ynghyd i gefnogi'r plant a'r bobl ifanc ac i fwynhau
nosweithiau o gystadlu a chymdeithasu. Dechrau am 6:00*

Cyswllt : Nigel Davies ☎01994 230049.

E-bost: mic@uwclub.net

BEIBL I BAWB O BOBOL Y BYD SIOE WILLIAM MORGAN YN Y PRIORDY



Roedd hi'n chwilboeth a'r haul yn bygwth bod gyda ni am weddill y diwrnod, ond cyn i'r dydd fynd rhagddo, roedd gennym ni oed i'w gadw, sef orig fach yng nghwmni Wiliam Morgan, y dyn a gyfieithodd y Beibl, gorchest arwrol gymerodd ddeng mlynedd iddo ei gyflawni. Oni bai am yr hyn wnaeth William Morgan 'nôl yn 1588 dwi'n sicr na fyddai'r Gymraeg mewn cystal siâp. Wir i chi. Dyma gyfle i ni gwrdd ag un o arwyr Cymru, felly.

Ta beth am hynny, dyna lle'r oedden ni, gynulleidfa'r Priordy yn dod wyneb yn wyneb â'n gorffennol, achos roedd William Morgan, yn ei ddillad llaes du a gwyn eglwysig, yn sefyll o'n blaenau yn sêd fawr y capel. Yr actor Llion Williams, oedd wedi gwisgo fel William Morgan a fe wnaeth ein tywys ni 'nôl bedwar can mlynedd i'r gorffennol. Doeddech chi ddim yn gwbod bod y Priordy yn medru gweithio fel TARDIS hefyd oeddech chi? Roedd angen cymorth y plant i chwarae rhannau'r holl gymeriadau yn stori hynod William Morgan a diolch iddyn nhw am wneud a dod â'r hanes yn fyw i ni.

A dyma ni 'nôl ym Mhenmachno yn y gogledd yn Nhŷ Mawr y Wybrnant gyda William Morgan a'i gyfaill Edmwnd Prys, oedd yn rhy dlawd i dalu am addysg ond yn ffodus a gafodd eu haddysgu drwy gymorth y tîrfeddianwr, Morys Wyn o Wydir. Yn y pendraw, aeth y ddau ddisglair yma ymlaen i Goleg Sant Ioan, Caergrawnt – fe gerddon nhw yno bob cam cofiwch – a dyna wnaeth y William Morgan yma o'n blaenau, fe gerddodd gydag Edmwnd Prys (Tomos Huw) a'r porthmon (Harri Howells) oedd yn hebrwng ei anifeiliaid i'r farchnad yn Llundain drwy'r capel er mwyn cyrraedd y brifysgol. Tra roedd William yng Nghaergrawnt, dysgodd Ladin, Groeg, Hebraeg, Aramaeg, Ffrangeg ac Almaeneg hefyd – bu wrthi yno am tua tair blynedd ar ddeg.

Roedd yn gyfnod cythryblus ym Mhrydain ar y pryd. Roedd yr hen grefydd, Catholigiaeth, dan fygythiad gan y Diwygiad Protestannaidd a hwnnw'n magu nerth a lledaenau dros Ewrop fel tân gan greu rhwygiadau dwfn mewn cymdeithas; dyma gyfnod cychwyn yr Eglwys Anglicanaidd ym

Mhrydain. Yn yr un cyfnod, dymunai'r brenin Harri VIII gael ysgariad oddi wrth ei wraig gyntaf Gatholig, sef Catherine o Aragon, er mwyn cael yr hawl i briodi Anne Boleyn. Felly daeth Harri yn ben ar Eglwys Loegr sef yr Eglwys Brotestanaidd, ac fe gafodd y Pab (Beti-Wyn) y pwsh! Fel pen yr eglwys, gallai Harri wneud fel y mynnai. Parhaodd yr Eglwys Brotestanaidd i dyfu, wrth gwrs roedd y gwasanaethau'n dal i gael eu cynnal mewn Lladin fel yn yr Eglwys Gatholig, iaith nad oedd y rhan fwyaf o'r bobol gyffredin yn ei deall. Roedd mynd i eglwys yn brofiad eitha estron i'r rhan fwyaf, profiad tra gwahanol i'n profiad ni heddiw.

Daeth dilyniant o frenhinoedd a brenhinesau i'r orsedd a William Morgan bellach yn ficer yn Llanrhaedr-ym-Mochnant. Un diwrnod, derbyniodd neges i'w wahodd i ddod i gwrdd â'r frenhines, sef Elisabeth I (Beca) erbyn hynny.



Dymunai hi i William Morgan gyfieithu'r Beibl i'r Gymraeg fel bod pobol Cymru'n medru clywed yr efengyl yn eu hiaith eu hunanin. A dyna fu.

Bu William Morgan wrthi am flynyddoedd yn cyfieithu'r Beibl o'r Hebraeg ac o'r Roeg a thrwy hynny godi'r Gymraeg i lefel iaith swyddogol o'r diwedd. Chwyldro! Yn sydyn roedd pobol yn gallu deall Gair Duw. Yn ystod y stori, fe dyfodd barf Llion Williams yn anhygoel o hir wrth iddo ddangos faint o ymroddiad roddodd William Morgan i'r dasg o roi'r Beibl i bobl Cymru.

Ar y bore Sul crasboeth hwn, fe gafodd pob un ohonom ni fod yn rhan o stori William Morgan – o rhuo fel eirth i udo fel bleiddiaid – a theimlo'n bod ni wedi camu 'nôl mewn amser, i oes yr arth a'r blaidd, i'n hanes NI.

Mae'n diolch ni i William Morgan y tu hwnt i eiriau.

Diolch i bawb a fu'n helpu i baratoi a gweini'r diodydd ysgafn a'r bisgedi wedi'r sioe ac yn arbennig i Alison parsons a Ffion am ddarparu'r gasebo.



SIOE WILLIAM MORGAN



Croeso i dudalen leuenctid@Priordy

Ydy chi wedi cwrdd â Ffabwla o 'Arwyr Ancora' eto?

Mabolgampau



Llongyfarchiadau mawr i bawb a fu'n cystadlu yn rownd gyntaf y mabolgampau. Pob lwc i bawb yn y ffeinal! Ymddiheuriadau na fyddaf yno i'ch cefnogi gan y byddaf yn Ne Affrica, ond byddaf yn rhoi gwaedd o ben Table Mountain! Byddwch siŵr o fy nghlywed!

Diwedd Tymor

Daeth tymor a blwyddyn arall i ben yn yr Ysgol Sul. Diolch i chi i gyd am eich ffyddlondeb a'ch

gwaith yn Y Priordy. Diolch i athrawon yr

Ysgol Sul a'r rhieni am eu gwaith a'u cefnogaeth hefyd. Er na fydd Ysgol Sul dros wythnosau'r haf, bydd



oedfa bob bore Sul. Croeso i bawb ymuno yn yr oedfa. Joiwch yr haf!

Calendr y mis

Gorffennaf 2 - Parti Diwedd Tymor

Gorffennaf 9 hyd Awst 27 - dim Ysgol Sul

Medi 3 - Tymor yn dechrau

Mis Medi

Bydd yr Ysgol Sul yn ailgychwyn ar Sul cyntaf Medi gyda Chwrrdd Plant a Phobl Ifanc gyda Beti-Wyn a'r band.

Trip yr Ysgol Sul

Dydd Sadwrn, Medi 16. Mwy o fanylion i ddod.



Gwyliau

Ydy chi'n mynd i rywle diddorol ar wyliau dros yr haf, neu'n gwneud rhywbeth gwahanol? Beth am rannu'r hanes gyda ni ym Mhapur Priordy? Danfonwch ebost ataf.

Hwyl am y tro, Beti-Wyn



SUL Y MAER

OEDFA DDINESIG YN Y PRIORDY

Bore Sul 11 Mehefin 2017



Wrth groesawu cynifer o brosiectau mawr sydd ar y gweill yn nhref Caerfyrddin y dyddiau hyn, dywedodd ein Gweinidog a Chaplan y Maer, Y Parchedig Beti-Wyn James ei bod hi'n bwysig ar yr un pryd i ni gynnal a datblygu'r pethau bychain, di-sôn amdanynt yn aml, sydd ar waith yn ein hardal. Fel mae'r hedyn mwstard yn gallu cydio, blaguro a thyfu a hyd yn oed ddadwreiddio'r goeden fwyaf, mae modd i ninnau droi'r pethau bach yn bethau mawr Fe'n hanogodd i ennill ffydd yr un faint â'r hedyn mwstard, y lleiaf o'r hadau, a chydweithio â'r Maer a'r Faeres newydd. y Cynghorydd Alun Lenny ac Ann Lenny, a hynny dan arweiniad Duw, er mwyn troi'r toreth o bethau bychain gwerthfawr yn ein tref yn gynhaeaf mawr.

Roedd cynulleidfa niferus yn cynrychioli gwahanol agweddau ar fywyd a gwaith ein tref a thu hwnt wedi dod ynghyd, yn cynnwys cyd-aelodau Alun Lenny yn Eglwys Annibynnol Bwlch-y-corn lle mae'n arweinydd eglwysig. Mae hefyd yn Swyddog Cysylltiadau Cyhoeddus a'r Wasg gydag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac yn wyneb cyfarwydd i nifer helaeth o gynulleidfaoedd yng Nghaerfyrddin a'r cylch fel pregethwr cynorthwyl.



Ychwanegodd presenoldeb cymaint o'r to iau at lawenydd a bywiogrwydd yr oedfa'n fawr. Mwynhaodd y plant stori'n Gweinidog yn seiliedig ar arfbais Cyngor Tref Caerfyrddin, yn enwedig y cwrwgl sydd ar ei frig. Yn union fel mae llif yr afon Tywi'n cario'r cwrwgl felly hefyd mae Duw yn ein tywys ni ar lif bywyd.

Bu'n addoliad aml gyfrwng gyda thestun PwyntPwer ar waith drwyddi draw a Band y Priordy'n cyfeilio i'r emynau. Cyflwynodd Gwenan a Carina, dwy o ferched ifainc y Priordy, ychydig o hen hanes Caerfyrddin cyn ein

tywys i wyllo fidio'n dangos sut mae prosiect fel gosod sylfeini'r Egin, pencadlys newydd S4C, yn creu hanes newydd yn ein tref.

A diolch i bedwarawd Ysgol Uwchradd Gymraeg Bro Myrddin – Elin Haf, Elin Wyn, Sioned a Mared - am ein swyno'n fawr gyda'u dehongliad o'r gân *Gwenllian*, y geiriau gan Peter Hughes Griffiths a'r gerddoriaeth gan Eric Jones Bu cyfle hefyd i wyllo Swci Boscawen neu Mared Lenny o roi'i henw iawn,



merch y Maer a'r Faeres, ar gyflwyniad gweledol yn canu'r gân hyfryd *Adar y Nefoedd*.

Cawsom ein harwain i gydadrodd Salm gan Adrian Evans (Y Priordy), ac mewn darlleniadau o'r Beibl gan Delyth John (Bwlch-y-corn) a'r Maer ei hunan ac mewn gweddi

gan Alun Jones (Bwlch-y-corn). Y casglyddion oedd Ethan, Osian, Anest ac Anna, plant ifainc y Priordy. A daeth y fraint o gyflwyno

anrheg i'r Maer i gofio'r achlysur i ran Noa, un arall o'n plant. Philip Jones oedd y cyhoeddwr.



u'n oedfa hynod gyfoethog ac mae'n diolch yn fawr i'n Gweinidog am ei pharatoadau manwl. Yn sicr, gallwn fod yn ffyddiog y bydd neges yr oedfa a'r modd y cafodd ei chyfleu'n aros yn y cof ac yn gyfrwng i ysbrydoli'r Maer a'r Faeres newydd ar ddechrau blwyddyn bwysig yn eu hanes.

RHOI TREFN AR Y BEIRDD A'R CERDDORION!

1567 medd rhai, 1568 medd eraill. Mae'r dystiolaeth yn gryf o blaid 1567 a mynd am y flwyddyn honno wnaeth ysgolheigion fel Gwyn Thomas a Hywel Teifi Edwards. Oes angen pendroni mwy felly?!

Ie, ym 1567, sef 450 o flynyddoedd yn ôl i eleni, y cynhaliwyd ail eisteddfod Caerwys yn Sir y Fflint. Bu'r gyntaf ym 1523. Cynhaliwyd eisteddfod yn Aberteifi yn 1176 ac yng Nghaerfyrddin yn 1450/1. Efallai y bu rhagor ond dyma'r unig ddwy y gwyddom amdanynt cyn eisteddfodau Caerwys



A ninnau'n awr ar drothwy'n heisteddfod genedlaethol gyfoes a modern ar Ynys Môn, mae'n werth i ni

ystyried beth oedd pwrpas yr eisteddfodau neu'r cynadleddau cynnar a nodwyd uchod. Wel, pennu rheolau Cerdd Dafod a Cherdd Dant a rhoi trefn ar feirdd a cherddorion Cymru trwy sustem o raddio a thrwyddedu. **Byddai beirdd a cherddorion yn cael eu graddio a'u gosod mewn gwahanol ddosbarthiadau er mwyn eu trwyddedu. Y graddau hyn fyddai'n penderfynu faint o arian y gallent ei hawlio ar eu teithiau clera (perfformio am arian).** Gallent hefyd gael eu graddio mewn neithiorau.

Y radd uchaf yr oedd modd i'r beirdd ei hennill oedd pencerdd. Byddai'r pencerdd wedyn yn hyfforddi disgyblion yng nghelfyddyd y canu caeth. Roedd yn rhaid i'r disgyblion godi'n llwyddiannus o ris i ris nes dod yn bencerddiaid - proses a gymerai naw mlynedd gyda llaw!

Un o'r pencerddiaid mawr oedd Tudur Aled – o blwyf Llansannan. Cafodd ei ddyrchafu'n Athro Cadeiriog yn Eisteddfod Caerwys ym 1523 gradd uwch na phencerdd hyd yn oed!. Bu farw yng Nghaerfyrddin a'i gladdu yng Nghwrt y Brodyr.

Un arall o bencerddiaid mwyaf y gyfundrefn farddol oedd Gruffudd

Hiraethog, disgybl, mae'n debyg, i Tudur Aled. Graddiodd sawl disgybl iddo'n bencerddiaid. Un o'i ddisgyblion a enillodd radd disgybl pencerddiaid yn ail Eisteddfod Caerwys oedd Siôn Tudur, gŵr o'r Wigfair, Llanelwy a fyddai'n clera ambell dro, cyn belled ag Abergwili at yr esgob Richard Davies .

Mae gan Siôn Tudur englyn amserol iawn y byddai'n werth i bob un. o ba radd bynnag y bo'i wreiddyn, ystyried ei neges:

DUW A RAN

Ni chaiff dyn ronnynd ond a rannodd – Duw,
Ni cheir dim o'i anfodd;
Nid pob un a'i dymunodd
Yr aeth ei fyd wrth ei fodd

DEWIS HENRY WILKINS

Gweler y tudalen blaen

Ailadroddir y geirau 'â'i gafael ynof er nas gwela hi; ar ddiwedd pob pennill yn emyn godidog John Roberts. Cyfeirio mae'r emynydd at law ein Ceidwad sy'n gallu'n hymgeleddu a'n hamddiffyn beth bynnag yw'n hamgylchiadau ar daith bywyd.



Dyfynnir cwpled olaf y gwahanol benillion yn aml ar flaen taflenni angladd a byddaf yn meddwl mor werthfawr yw dod yn gyfarwydd â'r emyn cyfan sy'n datgan mor gadarn yw ffydd yr emynydd yn Nuw a'i law anweledig.

Diolch i Henry am rannu'r profiad hwn â ni.

CYFEIRIAD NEWYDD

Cyfeiriad newydd Alwen Owen, Lleucu ac Elain yw:
Golwg y Dyffryn
Bronwydd



MABOLGAMPAU MIC

Oed Meithrin hyd at B6



David Lewis...

TAITH LENYDDOL ABERTAWE A'R CYLCH De Tirol / Alto Adige – Teyrnas Ötzi – ‘Dyn yr Iâ’



DYMA oedd y daith a ddewiswyd gan Heini Griffudd eleni ar gyfer ei ddosbarth llenyddol a braf oedd cwrdd â hen wynebau cyfarwydd erbyn hyn, gan gynnwys rhai sydd â chysylltiadau â Chaerfyrddin, sef Dr Huw Edwards a'i wraig Brenda a hefyd Meinir Loader ynghyd â Hywel a Janet Evans. Gadawsom Heathrow am Innsbruck ac yna cael ein cludo ar fws moethus iawn i Brixen, tref ynghanol mynyddoedd y Dolomitiau. Roedd hi'n hardd a hynafol iawn a'r gwesty mewn safle godidog uwchben y dref.

De Tirol (Süd Tirol)

Mae'r ardal hon ynghanol y Dolomitiau'n ddiddorol ar sawl ystyr. Yn ddaearyddol mae'n rhan o wlad yr Eidal ac eto bu gynt am gyfnod maith yn perthyn i Awstria-Hwngari. Erbyn hyn, er ei bod yn rhan o'r Eidal, mae 97% o'r bobl yn siarad Almaeneg. A dweud y gwir, rydych yn teimlo'ch bod o fewn yr Almaen! Mae'r dimensiwn ieithyddol hefyd yn ddiddorol gan fod pawb yn siarad o leiaf ddwy iaith a rhai mewn cymoedd mwy diarffordd yn siarad iaith a elwir 'Ladin' sydd yn hanu o'r hen iaith wreiddiol a ddefnyddiwyd gyntaf dros ran helaeth o'r wlad.



Mae gan De Tirol hanes hir. Mae olion aneddau Oes y Cerrig yn y dyffrynnoedd. Daeth y Celtiaid i fyw yn nyffrynnoedd Elsack ac Etsch. Yna daeth y Rhufeiniaid i goncro'r ardal dan Drusus. Rhwng y 5ed a'r 6ed ganrif gwladychwyd yr ardal gan y Lombardiaid ac wrth dorri cyswllt â'r Rhufeiniaid datblygodd ieithoedd Rhaeto-Romaneg yn y dyffrynnoedd mynyddig.

Yn ystod y canrifoedd nesaf daeth y Bafariaid i Almaenyddio rhannau o'r wlad cyn i Charlemagne reoli'r holl Ddolomitiau. Ym 1282, blwyddyn lladd Llywelyn, daeth Tirol yn diriogaeth sofran ond ym 1363 daeth i ddwylo Tŷ Hapsburg ac aros gyda hwy tan 1913. Ar ddiwedd y Rhyfel Byd Cyntaf y cafodd Tirol i'r de o fwlch Brenner ei rhoi i'r Eidal yn wobwr am iddi gydweithio â'r Cynghreiriaid. Y pryd hwnnw roedd chwarter miliwn o bobl yn byw yn Ne Tirol, y mwyafrif llethol yn Almaeneg eu hiaith a'u traddodiadau. Bu'r golled yn un hallt i Awstria. Aeth Mussolini ati ar frys i geisio Eidaiddio'r ardal gan roi enwau Eidaleg yn lle Almaeneg, gorfodi pobl i newid eu henwau i rai Eidaleg a gwaharddwyd Almaeneg o'r ysgolion. Codwyd ffatrïoedd a symudwyd gweithwyr yn eu miloedd o'r Eidal i weithio ynddynt ac i redeg y wlad. Bu cytundeb rhwng y Natsiaid a Mussolini i'r bobl Almaeneg symud allan o'r ardal. Yn dilyn yr Ail Ryfel Byd roedd ymgyrch i gael annibyniaeth i Dde Troi, gan gynnwys ymgyrch fomio yn ail hanner y 50au. 3% o'r boblogaeth oedd yn Eidalwyr ym 1910 ond cynyddodd hyn i 30% trwy ymdrechion Mussolini. Heddiw, mae 60% yn arddel Almaeneg yn iaith gyntaf, 23% Eidaleg, 5% Ladin, gydag 1% yn arddel ieithoedd eraill. Bob deng mlynedd mae gofyn i boblogaeth De Tirol nodi eu mamiaith a disgwylir bod cyfran gyfatebol o swyddogion cyhoeddus yn defnyddio'r iaith honno.

Rhai o'r trefi a weldom wrth deithio o gwmpas.

Brixen / Bressanone

Hon yw'r dref hynaf yn Tirol a bu esgobaeth yma er 901. Mae hi 500 metr uwch na'r môr ac ma mynydd Plosa'n codi 2542 metr. Mae'r hinsawdd yn braf ac mae yma dreftadaeth artistig a hanesyddol. Daeth i fri yn yr 11 ganrif trwy ddod yn brifddinas tywysgoaeth esgobol pan godwyd yr eglwys gadeiriol a bu'r dref yn dalaith annibynnol am fil o flynyddoedd. Erbyn heddiw mae llawer o ddiwydiannau modern a llwyddiannus yr olwg yn ogystal â gwinllannoedd a pherllannau afalau.



Roedd perchennog y gwesty'n falch o ddweud wrthyf ei fod wedi dod ar draws yr afalau a dyfwyd yn ymyl y dref yn Efrog Newydd.

Bozen / Boizano

Dyma brifddinas De Tirol. Daeth yn rhan o'r Eidal ar ddiwedd y Rhyfel Byd Cyntaf. Mae'n ddinas ddwyieithog yn bennaf wedi i Mussolini drefnu bod lluo o weithwyr o'r Eidal yn cael mynd i'r gweithfeydd mawr ar lawr y dyffryn. Mae llawer i'w weld yn y ddinas hon ond i mi'r prif atyniad oedd yr Amgueddfa Archeolegol lle gwelir Ötzi, y corff 5,000 oed a gadwyd yn yr iâ cyn ei ddarganfod ym 1991 gan ddau gerddwr o'r Almaen. Roedden nhw'n tybio ar y dechrau mai corff dringwr oedd yno ond wedi cyfnod o ymchwilio gwelwyd ei fod dros 5,000 o flynyddoedd oed a bod llawer o'i ddillad a'i eiddo mewn cyflwr arbennig o dda. Darganfyddwyd y corff yn union ar y ffin rhwng Awstria a'r Eidal a bu dadlau brwd ynglŷn â'i berchnogaeth. Aethwyd â'r corff yn gyntaf i Innsbruck gan fod yna labordy arbennig yno ond erbyn heddiw fe'i ceir yn yr amgueddfa arbennig iddo yn Bolzano..

Ötzi – Rhai o'r ffeithiau amdano

Mae'r enw a roddir iddo'n deillio o'r cwm a'r afon yn ymyl lleoliad ei ddarganfod, sef yr Ötz. Bu llawer o drafod am enw i 'Ddyn yr Iâ' mae'n debyg ond cytunwyd o'r diwedd ar Ötzi ar ôl y cwm cyfagos. Yn ôl yr ymchwiliad meddygol fe'i lladdwyd gan saeth a darganfyddwyd pen y saeth yn ei ysgwydd chwith ac yn agos iawn i'w ysgyfaint. Tybir mewn damcaniaeth ei fod yn ffoi o frwydr o ryw fath a bod llawer o'r arfau, fel bwa a bwyell copr, yn dal ganddo. Roedd copr yn brin iawn y pryd hynny ac felly'n eiddo i filwyr pwysig ac o'r garfan uchaf yn y gymdeithas. Mae'r amgueddfa ryfeddol hon yn cynnwys y dillad amdano a'r arfau yn ymyl ei gorff. Yn sicr, ni ddylid ymweld â'r ddinas hynafol hon heb dreulio tipyn o'ch amser yn yr amguedda arbennig a grëwyd i Öts – Dyn yr Iâ.



MAE llawer o bethau eraill i'w gweld yn Bolzano, gan gynnwys y mynyddoedd o gwmpas. Rhaid crybwyll mai dyma un o brif safleoedd sgïo'r byd a chynhelir y cystadlaethau Olympaidd i ddynion a menywod yn yr ardal hon. Gellid mynd ymlaen am y lluo o lefydd diddorol a welsom ond gobeithio fod hyn yn ddigon i roi argraff am holl gyfoeth y Dolomitau.

GASEBO

Diolch yn fawr iawn i Gwmni
Ungoed Thomas & King am y
rhodd o Gasebo at wasanaeth eglwysi'r Ofalaeth.
Gwerthfawrogi eu caredigrwydd yn
fawr iawn .



utk
Ungoed-Thomas & King
Solicitors • Cyfreithwyr

CWRDD DIACONIAID Y PRIORDY

Nos Fercher 20 Medi 2017 am 7 yn y Ffestri

*Os oes unrhyw faterion yr hoffech i'r diaconiaid eu trafod, yna rhowch
wybod i'r Ysgrifennydd Gohebol mewn da bryd
os gwelwch yn dda*

Beth am droi at
Wefan yr Undeb?
www.annibynwyr.org



DIOLCH YN FAWR

Diolch i Beti-Wyn a Philip ac Alun Lenny am y lluniau'r mis
hwn

BIL NEWYDD AR Y Ffordd?!

Mae Cymdeithas Feddygol Prydain (BMA Cymru) wedi croesawu
cynllun gan Lywodraeth Cymru i wneud hi'n anghyfreithlon i
werthu alcohol am lai na phris penodol.

Mae'r 'Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris Alcohol)' ymysg pum bil sydd wedi eu
cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru wrth iddyn nhw amlinellu eu blaenoriaethau am
y flwyddyn sydd i ddod.

Bydd y bil yn cynnig fformiwla fydd yn penderfynu isafswm pris alcohol ar sail
cryfder a chyfaint, ac yn galluogi awdurdodau lleol orfodi'r pwerau ac erlyn.

BBC Cymru Fyw



EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD, 2017 PENY-Y-BONT AR OGWR, TAF AC ELÁI

LLONGYFARCHIADAU mawr i bawb a fu'n cystadlu yn eisteddfodau'r Urdd eleni – yn y cylch, y sir a'r genedlaethol. Nodwn isod y rhai a fu'n llwyddiannus yn y genedlaethol:



CYNRADD

Llwyfan

Deuawd B6 ac iau	3	Siwan Jones (yn rhannu'r ddeuawd)
Parti Unsain B6 ac iau	3	Siwan Jones, Gwenllian Jones a Mia Lewis
Côr B6 ac iau	3	Siwan Jones, Gwenllian Jones, Mia Lewis, Harri Howells, Erin Roderick, Anest Elias a Gruffudd Owen.

Gwaith Cartref

Rhyddiaith B2 ac iau	1	Martha Bowen
Barddoniaeth B3 a 4	3	Cai Soanes

UWCHRADD

Llwyfan

Parti Cerdd Dant B7- 9	3	Lucy Jones, Carina Sidhu, Gwenan Jones, Elain Owen, Lisa Davies, Catrin Owen
Ensemble Lleisiol B1 10 a dan 19 oed	2	Elin Wyn James
Grŵp Cerdd Dant B1 10 a dan 19 oed	2	Elin Wyn James, Mared Owen
Côr Cerdd Dant B13 ac iau	1	Elin Wyn James, Cara Rogers, Mared Owen, Sara LLwyd James, Lleucu Owen
Tîm Siarad Cyhoeddus (YU) B10 a dan 19 oed	1	Mared Owen a Heledd Mai Jones (aelodau o'r tîm)

COFIO HEDD WYN

Byddwn yn cofio canmlwyddiant colli Ellis Humphrey Evans (1887-1917) neu Hedd Wyn yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni, Fe'i ganed yn Nhrawsfynydd ac mae'r Ysgwrn, cartref y bardd ger y pentref wedi ailagor i'r cyhoedd erbyn hyn ar ôl gwaith adnewyddu ar y tŷ ac adeiladau'r fferm..



Enillodd gadair Eisteddfod Genedlaethol Cymru Penbedw 1917 am ei awdl "Yr Arwr". Bu'n gweithio ar yr awdl

gan ei chwblhau erbyn tua chanol Gorffennaf 1917 pan oedd yng Ngwlad Belg gyda'r Ffiwsilwyr Cymreig. Ar ddydd Iau, 6 Medi 1917, cyhoeddodd T. Gwynn Jones i'r dorf ym Mhafiliwn yr Eisteddfod mai bardd a oedd yn dwyn y ffugenw "Fleur-de-lis" oedd yn deilwng o ennill y gadair. Fodd bynnag roedd Ellis wedi cael ei ladd chwe wythnos ynghynt ym Mrwydr Cefn Pilkem. Pan gyhoeddodd yr Archdderwydd Dyfed ei fod wedi'i ladd yn y frwydr honno gorchuddiwyd y gadair â llen ddu. Dyna pam y cyfeirir at yr eisteddfod honno fel "Eisteddfod y Gadair Ddu".



Dim ond un o'r miloedd oedd Hedd Wyn, ond mae'r bardd o Drawsfynydd yn symbol o'n cof cenedlaethol ni am bob un o'r dynion ifanc a gollwyd yn y brwydro. Fel y dywedodd Alan Llwyd daeth 'yr Hedd Wyn marw yn fwy byw na'r Hedd Wyn a oedd yn gig a gwaed'. Lluniwyd mwy o farwnadau i Hedd Wyn nag i'r un bardd arall o Gymro erioed.

Bu galaru mawr ar ôl Hedd Wyn - galar a gynhowyd mor nodedig yn englynion R Williams Parry sy'n dechrau gyda'r geiriau: *Y bardd trwm dan bridd tramor.*

Cawn gyfle i ddwyn i gofi hanes bywyd Hedd Wyn ac unrhyw gwersi sy'n gallu codi ohono yn ein hoedfa ar Fore Sul 16 Gorffennaf.

DYFNALLT

YS gwn i a fydd yna unrhyw ddadlau neu anghytuno wrth grisialu ymdrechion y beirdd a'n llenorion yn eisteddfod Ynys Môn eleni?

Achsodd ymdrech un a aned gan mlynedd yn ôl i eleni, ar 4 Mai, 1917 beth cynnwrf mewn eisteddfod ym mhumdegau'r ganrif ddiwethaf. Y gŵr hwnnw oedd Dyfnallt Morgan, llenor, beirniad llenyddol, bardd a chyfieithydd.



Eisteddfod Genedlaethol y Rhyl 1953 oedd hi. Roedd neb llai na Saunders Lewis eisiau coroni Dyfnallt am ei bryddest *Y Llen* ond roedd y ddau feirniad arall, J M Edwards a T H Parry Williams yn unfryd yn ei herbyn. Ond dyna fe, eisteddfod yw eisteddfod a bu sawl anghytuno tebyg ers hynny.



Y bardd buddugol yn y Rhyl, gyda llaw, oedd Dilys Cadwaladr, y fenyw gyntaf i ennill y Goron yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Gyferbyn â'r maes lle cynhaliwyd yr eisteddfod codwyd tafarn o'r enw *Crown Bard* a'r arwydd allanol yn cynnwys delwedd


o'r bardd a'r goron!

Ond yn ôl at Dyfnallt. Cafodd ei eni ym Mhenydarren, Merthyr Tudful. Treuliai'r hafau yn ei ddyddiau cynnar gyda'i fodrbedd yn Llanddewi Brefi yng Ngheredigion lle roedd gwreiddiau teuluol ei fam. Bu hynny'n gyfrwng i atgyfnerthu'i afael ar y Gymraeg a'i Gymreictod yn ddiamau. Derbyniodd ei addysg ym Mhrifysgol Aberystwyth. Roedd yn

wrthwynebydd cydwybodol yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Ymunodd â changen o'r *Christian Pacifist Forestry and Land Units* a sefydlwyd yng Nghymru gan Gwynfor Evans a bu'n gweithio fel coedwigwr ger Llanymddyfri cyn symud i fod yn gynorthwy-ydd mewn ysbyty ac yna gydag Ambiwlans y Crynwyr yn yr Eidal, Awstria a Tsieina.. Dychwelodd i Gymru a'i fraich chwith wedi'i pharlysu gan y diciâu. Bu'n ymchwilio ym Mhrifysgol Caeredin ac yn ddarlithydd yn yr Adran Addysg ym Mhrifysgol Aberystwyth ac yna ym 1954 daeth yn gynhyrchydd gyda'r BBC yn Abertawe a Bangor. Ddeng mlynedd yn ddiweddarach fe'i penodwyd yn ddarlithydd yn Adran Efrydiau Allanol Prifysgol Bangor, swydd y bu ynddi nes iddo ymddeol.

Ei briod oedd Eleri, merch i'r prifardd a'r gweinidog T. Eirug Davies a chawsant un mab, Tomos. Bu farw yn Ysbyty Gwynedd, Bangor ar 6 Hydref 1994 a chynhaliwyd y gwasanaeth coffa yng nghapel Pendref a'r Amlogfa ym Mangor.

Bu Dyfnallt yn gynhyrchiol iawn yn ystod ei yrfa. Cyhoeddodd gyfrol o farddoniaeth, *Y Llen a Myfyrdodau Eraill* sy'n cynnwys y bryddest ddadleuol fel yr awgryma'r teitl. Mae'n awdur amryw o ysgrifau beirniadol mewn llyfrau a chylchgronau, yn cynnwys *Gwŷr Llên y Ddeunawfed Ganrif* a *Gwŷr Llên y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg*, astudiaethau o waith Gwenallt, T H Parry Williams a Waldo Williams a'r gyfrol *Y Ferch o Ddolwar Fach* sy'n ymdrin â bywyd a gwaith Ann Griffiths. Fe oedd golygydd *Cofio Merfyn Lloyd Turner*, gŵr a wnaeth waith arloesol ymhlith pobl ifanc ddifreintiedig a charcharorion ac ym maes diwygio'r dull o gosbi troseddwy. Roedd yn gyfieithydd penigamp. Cyfieithodd *Y Diwygiad Mawr* gan Derec Llwyd Morgan i'r Saesneg dan y teitl *The Great Awakening in Wales*. Ymhlith ei gyfieithiadau hefyd mae geiriau llawer o unawdau a chytganau clasurol a chyfanweithiau cerddorol.



Ni fu raid i Dafnallt aros yn hir i gael ei goroni ar ôl siom y Rhyl. Bu'n fuddugol yn Eisteddfod Genedlaethol Llangefni, Ynys Môn, ym 1957 gyda *Rhwng Dau* – drama fydryddol. Doedd dim dadl y tro hwn a gobeithio mai felly y bydd hi hefyd yn y prif gystadlaethau ar Ynys Môn elen, chwe deg mynledd yn ddiweddarach!

Carys Morgans, Swyddog Cyswllt y Gefeillio yn cyflwyno...

NEWYDDION O SALEM, CAERNARFON



Sul Y Pentecost

Roedd yn llawenydd nid yn unig i ddathlu'r Pentecost drwy roi balwnau y tu allan i'r capel yn ôl gwahoddiad a gafwyd gan Gyngor Eglwysi Rhydaman ond hefyd dyma'r Sul y croesawyd ein Gweinidog yn ôl ar ôl cyfnod o salwch.



Sul y Drindod

Derbyniwyd tri o ieuentid yr eglwys yn gyflawn aelodau - Sul i'w drysori



Lowri Elen,
Lleucu Mair a
Rhodri Pierce
oedd y criw ifanc

Clwb Darllen
Llyfrau i'w

darllen dros y gwyliau :

'When we dance at the end of the peer' - Sandy Taylor a *'Dŵr yn yr Afon'* - Heiddwen Tomos

Trip Taro Mewn - Taith i Benllyn eleni.

Ymwelwyd â Phlas Glyn y Weddw. Amgueddfa Morwrol Nefyn, Pwllheli,. Gorffennwyd gyda pryd da yn 'Yr Aradr' Bryncir

Diolch am y newyddion ac rydyn ni i gyd yn y Priordy'n falch fod y Gweinidog wedi gwella ac yn ôl yn y tresii!!

DARLLENIAU GORFFENNAF

Wythnos 1:	Salm 13
Wythnos 2	Salm 45: 1-10
Wythnos 3: Sul y Tadau	Salm 119: 105-112
Wythnos 4	Salm 139: 1-12, 23-24
Wythnos 5	Salm 105: 1-11

DARLLENIAU AWST

Wythnos 1:	Mathew 14: 13-21
Wythnos 2	Mathew 14: 22-23
Wythnos 3	Mathew 15: 10-20, 21-28
Wythnos 4	Mathew 16: 13-20

DARLLENIAU MEDI

Wythnos 1:	Exodus 3: 1-15
Wythnos 2	Exodus 12:1-14

Beth am droi at cyfundeb.com?
Gwefan Cyfundeb Annibynwyr
Gorllewin Caerfyrddin



**ADDOLI AR Y CYD
MIS AWST 2017**

Dydd Sul, 6 Awst
Heol Awst
Y PARCHEDIG
GERALD JONES
Oedfa Gymun

Dydd Sul, 13 Awst
Capel Penuel
Y PARCHEDIG
HYWEL EDWARDS

Dydd Sul, 20 Awst
Y Tabernacl
Y PARCHEDIG DDR
DESMOND DAVIES

Dydd Sul, 27 Awst
Y Priordy
Y PARCHEDIG
JOHN GWILYM JONES

NODER, OS GWELWCH YN DDA
Gwasanaeth am 10 y bore (yn unig) ym mhob capel

GAIR O DDIOLCH

**Diolch o galon i bawb am bob arwydd o gymorth a
chydymdeimlad yn ystod yr wythnosau diwethaf.
Mae hyn wir wedi meddwl llawer i ni fel teulu.**

Chris Lloyd

GOFALWR / GWRESOGWR Y MIS

GIORFFENNAF		MEDI	
Gofalwr	Gwresogwr	Gofalwr	Gwresogwr
David Lloyd		Catrin Heledd Jones	Gareth Gravell

27 Awst (Bore) – Is-bwyllgor yr Adeiladau

BLODAU

Gorffennaf	9 23	Alwen Owen Eira Phillips	Medi	10	Eirlys Thomas
------------	---------	-----------------------------	------	----	---------------

27 Awst – Mair Baston

PARATOI'R BWRDD CYMUN

Gorffennaf	2	Bore	Alwen Owen a Fiona Elias
Medi	3	Bore	Eleri Thomas a Delyth Davies

YMWELWYR

Gorffennaf / Awst	Nansi a Desmond Hayes
Medi / Hydref	Thelma Evans a June Thomas

DARLLENWYRMGORFFENNAFI / MEDI 2017

Gorffennaf	2	Luned Voyle	Medi	3	
	9			10	Mwynwen Jones
	16	Glenys Thomas		17	Alwen Owen
	25			24	
	30	Eirlys Jones			

CYHOEDDWYR

Gorffennaf	Chris Lloyd	Medi	Adrian Evans
------------	-------------	------	--------------



27 Awst (Bore) – Yng ngofal Tîm y Cyhoeddwy

RHWYDWAITH

Braint ar Sul cyntaf y mis oedd bod yn dyst i fedydd Erin Hana, merch Non a Carwyn Edwards, Pumsaint. Fe'i bedyddiwyd, gan y Parchedig W J Edwards, taid Erin, a'r oedfa yng ngofal ein Gweinidog. Croeso mawr i Erin i deulu'r eglwys. Bu rhaid i Erin gael llawdriniaeth yn ddiweddarach yn y mis ond mae'n dod yn ei blaen yn dda.



Bu lluniau nifer o'n haelodau yn y Wasg yn ddiweddar. Yn y **Carmarthen Journal** roedd llun Llifton Evans yn cael ei holi ynghylch yr Etholiad Cyffredinol ym Mart Da Byw Bob Jones Prydderch, Beti Wyn yn beirniadu yn Eisteddfod Fach 2017 Capel Dewi, Philip James (ynghyd â Linda Williams) yn derbyn siec gan y Cynghorydd Wyn Thomas at **Lyfrau Llafar Cymru**. A nifer o wragedd yr eglwys yn rhan o wibdaith Merched y Wawr i Arberth, Yn **Y Cymro** roedd llun Maredd Owen a Heledd Mai Jones yn Nhîm Siarad Cyhoeddus B10 a dan 19 oed Ysgol Bro Myrddin a ddaeth yn gyntaf yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Pen-y-bont ar Ogwr, Taf ac Elái.

Bu eitem yn ddiweddar ar **Heno** ar **S4C** i lansio *Casgliad o Gerddi – Cyfrol Dathlu Chwarter Canrif Ysgol Farddol Caerfyrddin (golygydd Geraint Roberts)*. Mae'n gyfrol werth ei darllen ac yn cynnwys cerddi gan nifer o feirdd y Priordy. Ymddangosodd Elinor Wyn ar **Prynhawn Da** yn trafod y papurau a bu'i gŵr Ian, ar **Heno** yn sôn am ei ddrama radio newydd. Aelod arall o'r teulu yw Geraint Huw Reynolds ac mae sôn am ei ffilm fer newydd, sef *Helfa'r Heli*, yn y rhifyn diweddaraf o **Cwlwm**. Hefyd ar **Newyddion Naw** gwelwyd Meleri Llwyd O'Leary (a'i brawd Llyr Huws Gruffydd AC) mewn eitem ar ddyfodol ysgolion bach gwledig.



Mae Elain Owen, Victor Jones a Harri James wedi bod yn yr ysbyty'n ddiweddar a John Maddox wedi ailddychwelyd yno.. Ein cofion cynnes atynt i gyd ac at bawb arall sy'n anhwylys y dyddiau hyn.



Llongyfarchiadau mawr i Leusa Bowen a Carina Sidhu ar ddod yn ail a thrydydd yng **Nghystadleuaeth Barddoniaeth Cymorth Cristnogol a Siocled Divine (Adran y Gymraeg) 2017**. Mae'r gystadleuaeth hon yn gysylltiedig â Masnach Deg ac os

trowch chi at y we, gallwch ddarllen cerddi buddugol y merched!

Mae lluniau plant yr Ysgol Sul a fu'n cymryd rhan ym Mabolgamp[au MIC (Oedran Meithrin hyd at B6) yn y rhifyn hwn o'r Papur. Da iawn am wneud mor dda. A phob hwyl i bawb sy'n cymryd rhan yn y rowndiau terfynol, gan gynnwys B7-13, yng Nghanolfan Hamdden Caerfyrddin.

AC I ORFFEN, dymuniadau da i Wynne Jenkins sy'n dathlu pen-blwydd arbennig ar 20 Gorffennaf 2017! Ein cofion at Wynne ac Eira a'r teulu i gyd a phob hwyl iddynt gyda'r dathlu



Unrhyw newyddion ar gyfer rhifyn Medi i'n
Gweinidog ☎ 01267 237696 neu Tina Charles ☎ 01267 236037

CYDYMDEIMLAD

Estynnwn ein cydymdeimlad cywir ag Adrian a Gloria, Bryn Derwen, ar golli tad Adrian, sef Leslie Evans, Glyn yr Odyn, Aberaeron, ar 19 Mehefin 2017 ac yntau ar drothwy'i ben-blwydd yn 100 oed.

Anfonwn ein cofion at ei briod, Lizzie, a'r teulu oll yn eu galar a'u hiraeth.

Bu'r angladd preifat yng ngofal ein Gweinidog.

'EGLWYS' WEPLYFR?

Mae **Mark Zuckerberg**, Prif Swyddog Gweithredol **Gweplyfr**, wedi awgrymu fod Gweplyfr yn gallu datblygu ymdeimlad o gymuned, gan lanw'r bwch yn sgîl cwymp mewn aelodaeth eglwysig. Mae'n awyddus i weld defnyddwyr Gweplyfr yn chwarae rhan debyg i weinidogion neu offeiriaid eglwysig. Cyhoeddodd yn ddiweddar genhadaeth newydd ar gyfer y rhwydwaith gymdeithasol i ganolbwyntio ar ddatblygu grwpiau a chymunedau er mwyn 'dod â'r byd yn agosach at ei gilydd'. Mae'n credu y gellir defnyddio'r safle i uno 'cymdeithas' ranedig a gwneud i ddefnyddwyr deimlo'u bod yn 'rhan o rywbeth mwy'.





Y SULIADUR



Gorffennaf	2	<i>Bore Hwyr</i>	Ein Gweinidog Ein Gweinidog Y Tabernacl yn ymuno â ni	Cymun
	9	<i>Bore</i>	Sul y Cyfundeb <i>Gweler y tu mewn</i>	
	16	<i>Bore</i>	A oes Heddwch? – Yn codi o hanes Hedd Wyn Oedfa yng ngofal yr Aelodau	
	23	<i>Bore / P'nawn</i>	Pererindod yr Ofalaeth. <i>Gweler y tu mewn</i>	
	30	<i>Bore</i>	Ein Gweinidog	

Medi	3	<i>Bore Hwyr</i>	Cwrdd Plant a Phobl Ifainc gyda'n Gweinidog Ein Gweinidog, y Tabernacl yn ymuno	Cymun
	10	<i>Bore P'nawn Hwyr</i>	Ein Gweinidog Ymarfer i'r Plant yn y Priordy am 11 ar gyfer Gŵyl Mawl Medi Oedfa i Ddathlu Hanner Can Mlynedd y Parchedig W J Edwards yn y Weinidogaeth yn yr Hen Gapel, Llanuwchllyn am 3. Manylion y tu mewn Ymarfer i'r Oedolion yn Ebeneser, Abergwili am 7 ar gyfer Gŵyl Mawl Medi	
	17	<i>Bore Hwyr</i>	Ein Gweinidog Casgliad at y Genhadaeth (mewn amlen gyda'ch rhif a'ch enw ar y blaen) Cydaddoli yn y Tabernacl gyda'r Parchedig Peter Cutts am 5 Ymarfer i'r Oedolion yn Ebeneser, Abergwili am 7 ar gyfer Gŵyl Mawl Medi	
	24	<i>Bore P'nawn</i>	Gŵyl Mawl Medi yn Ebeneser, Abergwili am 10 gyda'r Plant a'r Ieuencid. Arweinydd: Catrin Hughes Gŵyl Mawl Medi yn Ebeneser, Abergwili am 2 gyda'r Parchedig Owain Llŷr Evans	

CALENDUR Y PLANT A'R BOBL IFAINC

✓ Ysgol Sul CP : Cwrdd Plant SC – Sul y Cyfundeb - Dim Ysgol Sul GMM(Y) – Ymarfer Gŵyl Mawl Medi am 11 GMM – Gŵyl Mawl Medi									
GORFFENNAF					MEDI				
2	9	16	23	30	3	10	17	24	
✓	SC	-	-	-	CP	✓ GMM (Y)	✓	GMM	

Manylion Suliau mis Awst - Y tu mewn